




Llywodraeth EM

DEWCH I WYBOD


EICH PENSIWN



canllaw
cychwynnol
i gynilo ar
gyfer bywyd
diweddarach

**Mae hwn yn ganllaw
cychwynol ar gyfer cynilo
ar gyfer bywyd diweddarach.**

Mae eich incwm ymddeol
yn cynnwys Pensiwn y
Wladwriaeth, penswin
gweithle neu bensiwn preifat,
ynghyd ag unrhyw
gynilion ychwanegol
sydd gennych.



**Dewch i wybod eich pensiwn
a gallwch deimlo'n fwy
diogel am eich dyfodol.**

Pensiwn y Wladwriaeth

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd gan y llywodraeth y gallwch ei hawlio pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gall ddod i wybod eich Pensiwn y Wladwriaeth eich helpu i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer eich ymdeoliad.

Mae'r swm a gewch yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol. Yn 2017/2018 mae gan Bensiwn newydd y Wladwriaeth gyfradd lawn o £159.55 yr wythnos - sy'n gyfartal â thua £8,300 y flwyddyn - ond ni fydd pawb yn cael yr un swm.

Ewch i www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth i weld yr hyn y gallech ei gael, a'r cynharaf y gallwch ei hawlio, o dan y rheolau cyfredol. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn dangos eich cofnod Yswiriant Gwladol. Efallai y gallwch wella'ch rhagolwg trwy lenwi bylchau yn eich cofnod.

Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn sylfaen dda, ond dylech ystyried faint sydd angen i chi ei gynilo ar gyfer y ffordd o fyw rydych ei eisiau pan fyddwch yn ymddeol, ac ystyried yn ofalus am gynilo ar gyfer eich dyfodol. Dewch i gael gwybod mwy yn www.yourpension.gov.uk

Adolygir oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn rheolaidd a gall newid, felly mae'n bwysig ei wirio

EICH PENSIWN

Cyfraniadau a Chredydau Yswiriant Gwladol

Cyfraniadau a Chredydau Yswiriant Gwladol
Mae'r rhan fwyaf o bobl yn talu cyfraniadau
Yswiriant Gwladol pan fyddant yn gweithio.

Gallwch hefyd gael credydau Yswiriant Gwladol os
ydych yn hawlio budd-daliadau penodol. Efallai eich
bod yn gymwys os, er enghraifft, cewch fudd-daliadau
anabledd, yn ofalwr neu'n magu plant.

Rhoddir llawer o'r rhain i chi'n awtomatig
ond mae angen gwneud cais am eraill. Am
ragor o fanylion ar sut i wneud cais, ewch i:
www.gov.uk/national-insurance-credits

Gall gwirio eich Pensiwn y Wladwriaeth
eich helpu i nodi bylchau yn eich
cofnod. Os oes bylchau, efallai y
byddwch am wneud Cyfraniadau
Yswiriant Gwladol gwirfoddol
i'w llenwi.

Credyd Pensiwn

Beth bynnag yw'ch rhyw, os ydych wedi cyrraedd oedran
Pensiwn y Wladwriaeth menywod ac mae'ch incwm
wythnosol yn llai na £159.35 (ar gyfer pobl sengl) neu £243.25
(ar gyfer cyplau) efallai y gallwch gael incwm ychwanegol
gan Gredyd Pensiwn. Ewch i **www.gov.uk/credyd-pensiwn** i
wirio os ydych yn gymwys a beth allwch ei gael.



RYDYCH YN GWEITHIO

MAE EICH PENSIWN
YN GWEITHIO

Pensiwn Gweithle

Mae pensiwn gweithle yn ffordd hawdd i gynilo ar gyfer bywyd diweddarach, mae'n debygol y cynharaf y byddwch yn ei ddechrau, po fwyaf fydd gennych pan fyddwch yn ymddeol.

P'un a yw'r cyflogwr rydych yn gweithio iddo yn fawr neu'n fach, hyd yn oed os mai dim ond chi a'ch bos sydd yno, gallech fanteisio ar bensiwn gweithle.

Dewch i wybod y manteision:

1. Mae cynilo arian i mewn i bensiwn gweithle yn hawdd: os ydych yn gymwys, nid oes yn rhaid i chi wneud unrhyw beth oherwydd cewch eich cofrestru'n awtomatig i bensiwn gan eich cyflogwr.
2. Pan fyddwch yn talu i mewn, mae'ch bos yn talu i mewn hefyd.

Os na fyddwch yn cynilo i mewn i bensiwn gweithle pan gewch y cyfle, neu os byddwch yn dewis ei adael, yna rydych yn rhoi'r gorau i'r arian ychwanegol hwn gan eich cyflogwr.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.workplacepensions.gov.uk/cy

Pension Wise

Mae Pension Wise yn wasanaeth llywodraeth di-dâl a diduedd. Gall eich helpu i ddeall y gwahanol ffyrdd y gallwch gymryd eich pot pensiwn.

Rydych yn gymwys i gael apwyntiad cyfarwyddyd am ddim os ydych dros 50 oed ac mae gennych bensiwn cyfraniad diffiniedig (nid cyflog terfynol neu bensiwn gyrfa ar gyfartaledd).

Mae pensiwn cyfraniad diffiniedig (CD) yn bensiwn personol neu bensiwn weithle sy'n seiliedig ar faint rydych, ac o bosibl eich cyflogwr, wedi talu i'ch pot pensiwn. Gyda'r math hwn o bensiwn, chi sy'n penderfynu ar sut i fynd â'ch arian allan.

Gallwch gael eich apwyntiad gydag arbenigwr cyfarwyddyd Pension Wise dros y ffôn neu wyneb yn wyneb mewn cannoedd o leoliadau ledled y DU. Mae'r holl arweiniad yn ddiduedd - ni fydd ein harbenigwyr yn argymell unrhyw gynhyrchion na chwmnïau ac ni fyddant yn dweud wrthyf sut i fuddsoddi'ch arian.

Archebwch eich apwyntiad am ddim trwy ffonio **0800 138 3944** neu ewch i **www.pensionwise.gov.uk/cy** a dewch i wybod eich opsiynau.



**Pension
wise**

Cael gwybod eich opsiynau



Pa mor dda ydych yn gwybod eich pensiwn?

A yw'n fuddiol cynilo ar gyfer pensiwn?

Gall y rhan fwyaf o bobl ddisgwyl cael mwy yn eu hymddeoliad nag y maent wedi'i gyfrannu i'w pensiwn. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cynilo i mewn i bensiwn gweithle hefyd yn manteisio ar gyfraniadau gan eu cyflogwr a'r llywodraeth ar ffurf rhyddhad treth (sy'n golygu bod rhywfaint o'ch arian y byddech wedi'i dalu fel treth incwm yn mynd i'ch pensiwn gweithle yn lle hynny).

A fydd Pensiwn y Wladwriaeth yn ddigon?

Pensiwn y Wladwriaeth yw sylfaen cynilion ymddeol ac i lawer o bobl, gallai dibynnu ar hyn yn unig olygu gostyngiad mewn incwm ar ôl ymddeol. Mae cynilo i mewn i bensiwn gweithle yn golygu y bydd gan bobl fwy o arian i barhau i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau pan fyddant yn ymddeol.

Mae ymddeoliad yn teimlo fel ei fod yn amser hir i ffwrdd - a yw'n rhy gynnar i ddechrau cynilo?

Er y gallai ymddeoliad ymddangos fel ei fod yn amser hir i ffwrdd, nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau cynilo. Mae cynilo trwy bensiwn gweithle yn hawdd ac, os ydych yn gymwys, nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth mewn gwirionedd oherwydd bydd eich cyflogwr yn eich cofrestru. Y cynharaf y byddwch yn dechrau ei gynilo, y mwyaf o arian rydych yn debygol o'i gael pan fyddwch yn ymddeol oherwydd bod gan eich arian amser i gynyddu.

Rhagor o wybodaeth

EICH PENSIWN

www.yourpension.gov.uk

Y Rheoleiddwr
Pensiynau



Adran Gwaith
a Phensiynau

www.workplacepensions.gov.uk/cy



**Pension
wise**

Cael gwybod eich opsiynau

www.pensionwise.gov.uk/cy

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth am bensiynau gan :



Gwasanaeth
Cyngtori Ariannol™

www.moneyadvice.service.org.uk/cy

**The PENSIONS
Advisory Service**

www.pensionsadvisoryservice.org.uk



Llywodraeth EM

DEWCH I WYBOD

EICH PENSIWN